Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
26/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
23/3/2021

# Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad De Ddwyrain Cymru

© Crown Copyright
Digital ISBN 978-1-80195-142-5

Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad De Ddwyrain Cymru

Mark Winterbotham, Genna Kik, Sam Selner, Jessica Huntley Hewitt, Sam Whittaker, Henry Allingham, Malina Cojocaru, Shannon Earl

IFF Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Winterbotham, M; Kik, G; Selner, S; Huntley Hewitt, J; Whittaker, S; Allingham, H; Cojocaru, M; & Earl, S; IFF Research (2021) Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad De Ddwyrain Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 26/2021
Ar gael ar: https://llyw.cymru/arolwg-sgiliau-cyflogwyr-2019

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
James Carey
Is-Adran Cyflogadwyedd a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 253811
E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau allweddol a gafwyd o blith cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru yn Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 (ESS 2019) Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg, sef arolwg mawr o gyflogwyr sy'n darparu darlun diffiniol o faint, natur ac effaith yr heriau sgiliau a wynebir gan gyflogwyr.**


**O 2010 hyd 2017, roedd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr (ESS) yn eistedd ochr yn ochr â'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr (EPS) i gynhyrchu cipolygon oedd yn cyflenwi ei gilydd. Yn y bôn, roedd ffocws yr Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr yn edrych tuag allan, yn ymdrin â darparu system sgiliau ehangach, ac ymgysylltu â hi, tra bo ffocws yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn edrych fwy tuag i mewn, gan asesu sefyllfa sgiliau cyfredol y cyflogwyr a'u hanghenion o ran sgiliau. Ar gyfer Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019, cafodd y ddau arolwg eu cyfuno i bob pwrpas. I gael rhagor o fanylion am y fethodoleg, gwelwch adroddiad cenedlaethol Cymru (sydd ar gael ar wefan gov.Cymru) neu'r adroddiad technegol (sydd ar gael ar wefan gov.uk).**

### Recriwtio a Heriau Allanol

- Dywedodd ychydig dros un ymhob chwech o gyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru (17%) bod ganddynt swyddi gwag ar adeg yr arolwg, ac roedd hyn yn gyfran fwy na'r gyfran ar draws gweddill Cymru (15%). Roedd hyn yn cyfateb â'r canfyddiadau yn Ne Ddwyrain Cymru yn 2017 (19%).
- Wrth ystyried swyddi gwag fel cyfran o'r gyflogaeth, roedd oddeutu un swydd wag i bob 30 o weithwyr yn Ne Ddwyrain Cymru (3.2%). Roedd hyn yn cyfateb â'r ffigur drwy Gymru gyfan (3.2%), ac yn debyg i'r canlyniadau yn 2017 (2.8%). Roedd hyn yn gywerth â 20,000 o swyddi gwag, sy'n gynnydd o 16,900 yn 2017.
- Er nad oedd y mwyafrif o swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder ymgeiswyr gyda'r sgiliau, cymwysterau neu brofiad gofynnol, mae anawsterau recriwtio gweithwyr oherwydd prinder sgiliau'n gallu bod yn broblem sylweddol i gyflogwyr. Yn Ne Ddwyrain Cymru, roedd gan 6% o gyflogwyr swyddi gwag oedd yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad. Roedd hyn yn cyfateb â'r ffigur yng Nghymru gyfan (5%) a'r canlyniadau yn 2017 (6%).

- Yn gyfan, ystyriwyd bod 25% o’r swyddi gwag yn anodd eu llenwi oherwydd prinder sgiliau yn Ne Ddwyrain Cymru, sy’n gyfatebol â’r dwysedd prinder sgiliau drwy Gymru gyfan (24%) a gyda’r canlyniadau cyfatebol yn 2017. Roedd hyn yn gywerth ag oddeutu 4,900 o swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (SGPS) ledled De Ddwyrain Cymru (Ffigur 1).

**Ffigur 1 Amlder, dwysedd a nifer y Swyddi Gwag lle’r oedd Prinder Sgiliau (SGPS) dros amser yn Ne Ddwyrain Cymru**




*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau yn Ne Ddwyrain Cymru: 2019 (2,767); 2015 (2,395); 2013 (2,400); 2011 (2,364)*

- Yn ôl y cyflogwyr, y sgiliau mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg ymgeiswyr oedd y sgiliau neu’r wybodaeth arbenigol oedd yn angenrheidiol i berfformio’r rôl (roedd hyn yn cyfrannu at 64% o’r SGPS) ac yn dilyn hynny roedd gweithio mewn tîm (45%). Roedd trefn y prif sgiliau mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg ymgeiswyr, wedi eu graddio yn ôl eu nifer, wedi newid ychydig bach, ac nid oedd gallu ymgeiswyr i reoli eu hamser eu hunain mor amlwg ag ydoedd yn 2017, tra bo diffyg gallu i ddarllen a deall cyfarwyddiadau yn uwch yn y drefn.


- O bell ffordd, canlyniad mwyaf cyffredin yr anhawster i recriwtio staff newydd oherwydd prinder sgiliau, cymwysterau neu brofiad gofynnol oedd cynnydd yn y

llwyth gwaith i aelodau eraill o’r staff (85%), ac roedd hyn yn cyfateb â’r lefelau ledled Cymru (84%) a’r canlyniadau yn 2017 (83%).

**Yr Her Sgiliau Mewnol**

- Yn gyfan, roedd gan 14% o gyflogwyr fylchau sgiliau, canran oedd yn uwch na’r gyfran ledled Cymru (13%) ac a oedd wedi parhau’n sefydlog ers 2017 (14%). Yn yr un modd, roedd y gyfran o’r holl weithwyr nad ystyriwyd yn gwbl hyfedr yn uwch yn Ne Ddwyrain Cymru (4.6%) nag ydoedd ledled Cymru (4.0%). Roedd hyn yn cyfateb â’r gyfran o weithwyr yn Ne Ddwyrain Cymru oedd â bylchau sgiliau yn 2017 (4.9%) ac roedd nifer y staff gyda bylchau sgiliau’n debyg yn 2019 (28,900) i 2017 (29,200). Gwelwch Ffigur 2.

**Ffigur 2 Amlder, dwysedd a nifer y bylchau sgiliau dros amser yn Ne Ddwyrain Cymru**




*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau yn Ne Ddwyrain Cymru: 2019 (2,767); 2015 (2,395); 2013 (2,400); 2011 (2,364)*

- Roedd un ymhob pump o fylchau sgiliau wedi eu hachosi’n gyfan gwbl gan ffactorau y gellid eu hystyried yn “fyrhoedlog”, h.y. achosion a fyddai’n lleihau’n naturiol dros amser. Cyfrannodd yr elfennau hyn at 88% o gyfanswm y bylchau

sgiliau. Roedd y bylchau sgiliau byrhoedlog yn cynnwys y rheiny a achoswyd gan staff oedd yn newydd i'r rôl (78%) neu nad oeddent wedi cwblhau eu hyfforddiant yn gyfan gwbl (74%). Rhain oedd dau achos mwyaf cyffredin y bylchau sgiliau.

- Y sgiliau oedd yn brin a gyfrannodd yn fwyaf cyffredin at y bylchau sgiliau oedd gallu staff i reoli eu hamser eu hunain (dyma oedd yr achos mewn 73% o'r bylchau sgiliau) a sgiliau gweithio mewn tîm (69%). Y sgiliau hyn hefyd oedd y rhai oedd yn brin yn fwyaf cyffredin ymysg staff ledled Cymru gyfan (68% a 62% yn y drefn honno). Yn Ne Ddwyrain Cymru yn 2017, roedd y rhain hefyd ymysg y sgiliau mwyaf cyffredin oedd yn brin ymysg y gweithlu (72% a 59% yn y drefn honno), er bod y ddau yn 2017 wedi cyfrannu at lai o fylchau sgiliau, ochr yn ochr â sgiliau neu wybodaeth arbenigol sydd eu hangen i wneud y rôl (55% yn 2019 o'i gymharu â 59% yn 2017).

- Yn debyg i'r swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau, canlyniad mwyaf cyffredin y bylchau sgiliau oedd cynnydd yn y llwyth gwaith i aelodau eraill o staff (59%), fel oedd yn wir yn 2017 (57%) ac yng Nghymru gyfan (54%).

- Roedd gan draean o'r cyflogwyr staff oedd â chymwysterau a sgiliau o lefel uwch nag oedd yn ofynnol ar gyfer rôl eu swydd gyfredol (33%), ac roedd hyn yn gyfatebol â'r ffigur ledled Cymru (34%). Roedd hyn yn trosi i 6.0% o staff oedd â sgiliau a chymwysterau nad oeddent yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn eu gwaith, sef cyfran lawer uwch nag yng Nghymru yn gyffredinol (8.1%).

**Hyfforddiant a Datblygiad y Gweithlu**

- Roedd bron i ddwy ran o dair o'r cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru (64%) wedi trefnu neu dalu am hyfforddiant i'w staff dros y 12 mis blaenorol (Tabl 1). Roedd hyn yn debyg i'r lefelau a nodwyd yng Nghymru gyfan (62%) a'r rheiny a gafwyd yn 2017 (62%). Roedd hyfforddiant yn y gwaith ychydig bach yn fwy cyffredin (52%) na hyfforddiant tu allan i'r gwaith (45%).

- Ers 2017, cafwyd cynnydd bychan yn y gyfran o staff a hyfforddwyd yn Ne Ddwyrain Cymru, gan gynyddu o 72% yn 2017 i 75% yn 2019. Roedd y ffigur hwn o dri chwarter y staff yn derbyn hyfforddiant yn cyfateb â'r lefelau ledled Cymru (75%).

**Tabl 1 Y gyfran o gyflogwyr a hyfforddodd eu staff a'r gyfran o staff a gafodd eu hyfforddi dros y 12 mis blaenorol yng Nghymru a De Ddwyrain Cymru ers 2011**

| | **2011** | | **2013** | | **2015** | | **2017** | | **2019** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | De Ddwyrain Cymru | Cymru | De Ddwyrain Cymru | Cymru | De Ddwyrain Cymru | Cymru | De Ddwyrain Cymru | Cymru | De Ddwyrain Cymru |
| % y cyflogwyr a hyfforddodd staff dros y 12 mis blaenorol | 63 | 69 | 62 | 67 | 63 | 66 | 62 | 62 | 62 | 64 |
| % y staff a hyfforddwyd dros y 12 mis blaenorol | 56 | 60 | 62 | 61 | 64 | 65 | 58 | 58 | 65 | 65 |

*Y Sylfaen: Yr holl sefydliadau 2019: Cymru (6,773); De Ddwyrain (2,767); 2017: Cymru (5,913); De Ddwyrain (2,603); 2015: Cymru (6,027); De Ddwyrain (2,395); 2013: Cymru (5,996); De Ddwyrain (2,400); 2011: Cymru (5,958); De Ddwyrain (2,374)*

- Yn gyfan gwbl, cafodd 404,000 o staff eu hyfforddi yn Ne Ddwyrain Cymru, am gyfanswm o 1.9m o ddyddiau hyfforddi, sy'n gyfatebol â 4.7 o ddyddiau hyfforddi fesul person a hyfforddwyd fesul blwyddyn (h.y. 'fesul hyfforddai') a 3.1 o ddiwrnodau fesul gweithiwr. Roedd y ffigurau hyn yn weddol debyg i'r rheiny ledled Cymru, lle'r oedd pob hyfforddai wedi derbyn 5.1 o ddyddiau hyfforddi fesul blwyddyn a phob gweithiwr wedi derbyn 3.3 o ddyddiau hyfforddi fesul blwyddyn. Roedden nhw hefyd yn debyg i'r canlyniadau yn 2017, pan dderbyniodd hyfforddeion yn Ne Ddwyrain Cymru 5.0 o ddyddiau hyfforddi fesul blwyddyn a 2.9 o ddyddiau hyfforddi fesul gweithiwr.

- Ymysg y sefydliadau oedd yn darparu hyfforddiant, y mathau mwyaf cyffredin o hyfforddiant a ddarparwyd oedd hyfforddiant penodol i swydd (87%); roedd hyn ychydig bach yn fwy cyffredin yn Ne Ddwyrain Cymru nag ydoedd ledled Cymru gyfan (85%). Y mathau mwyaf cyffredin o hyfforddiant wedyn oedd hyfforddiant iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf (73%) a hyfforddiant cynefino sylfaenol (63%), gyda'r ail hefyd ychydig bach yn fwy cyffredin yn Ne Ddwyrain Cymru nag ydoedd ar lefel genedlaethol (61%). Roedd pob un o'r canlyniadau hyn yn debyg

i'r canfyddiadau yn 2017, er bod hyfforddiant cynefino sylfaenol yn fwy cyffredin yn 2017 (69%) nag ydoedd yn 2019.

- Yn debyg i 2017, roedd oddeutu tri ymhob pump o gyflogwyr yn ystyried eu bod mewn 'ecwilibriwm hyfforddi', sy'n golygu eu bod wedi gwneud y maint o hyfforddiant yr oeddent ei eisiau dros y 12 mis blaenorol (58% yn 2019, 60% yn 2017), a oedd yn debyg i'r ffigurau ledled Cymru (59%). Roedd hyn yn golygu bod 42% o gyflogwyr eisiau darparu mwy o hyfforddiant nag yr oeddent wedi gallu ei ddarparu dros y flwyddyn flaenorol

**Prentisiaethau**

- Roedd ychydig bach mwy nag un ymhob deg o gyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru wedi cyflogi prentisiaid (11%), ac roedd 6% pellach wedi nodi eu bod yn cynnig prentisiaethau ar y pryd ond nad oedd ganddynt unrhyw staff yn eu gwneud nhw. Felly, y gyfran gyffredinol o gyflogwyr oedd â phrentis neu a oedd yn cynnig prentisiaethau ar y pryd yn Ne Ddwyrain Cymru oedd 17%.
- Ymysg cyflogwyr gyda phrentisiaid, roedd gan oddeutu eu hanner ddim ond un prentis (53%), ac roedd gan 84% ohonynt 4 neu lai. Roedd hyn yn golygu, o blith y cyflogwyr oedd â phrentisiaid ar y pryd, bod 48 allan o bob 1,000 o weithwyr yn brentis, ac roedd hyn yn gostwng i 15 allan o bob 1,000 o weithwyr ar draws yr holl gyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru. Roedd y canfyddiadau hyn i gyd yn cyfateb â'r ffigurau ledled Cymru, lle'r oedd 44 allan o bob 1,000 o weithwyr i gyflogwyr oedd â phrentisiaid yn brentis, a lle'r oedd 16 o bob 1,000 o'r gweithwyr i gyd yn brentis.
- Y prif reswm nad oedd cyflogwyr yn cynnig prentisiaethau oedd y ffaith nad oedd prentisiaethau'n cael eu cynnig yn eu diwydiant hwy (19%), ac yn dilyn hynny y ffaith nad oedd y cyflogwr yn chwilio am staff newydd (18%) ac nad oedd prentisiaethau'n addas oherwydd maint eu sefydliad (16%). Roedd y rhesymau hyn yn weddol debyg i'r rheiny yn 2016, er bod trefn y rhesymau o ran eu nifer wedi newid rhywfaint. Y ffaith na chynigiwyd prentisiaethau yn y diwydiant oedd y trydydd mwyaf cyffredin o ran y rhesymau (13%) yn 2016, a hwn oedd y rheswm mwyaf cyffredin yn 2019, felly roedd wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd hi'n llai cyffredin i gyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru na chyflogwyr ledled Cymru (22%) ddweud nad oeddent yn bwriadu recriwtio staff newydd, ond roedd hi'n fwy

cyffredin iddyn nhw ddweud nad oedd prentisiaethau'n cael eu cynnig yn eu diwydiant hwy (16%).

- Roedd 72% o'r cyflogwyr oedd wedi recriwtio pobl yn benodol fel prentisiaid yn y tair blynedd diwethaf wedi cadw o leiaf un o'u prentisiaid ar ôl i'r brentisiaeth ddod i ben. Y rheswm mwyaf cyffredin am beidio cadw prentisiaid oedd bod y prentis wedi penderfynu peidio aros (56%), er bod oddeutu tri ymhob deg o gyflogwyr wedi dweud mai'r rheswm oedd nad oedd y prentis yn ddigon galluog yn ei rôl (29%). Roedd y ffigurau hyn i gyd yn cyfateb â'r canfyddiadau ledled Cymru.
- Nid oedd y mwyafrif o gyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru wedi clywed am y rhaglen Hyfforddeiaethau, er bod 29% o'r cyflogwyr wedi clywed amdanynt. Dim ond 3% o'r cyflogwyr oedd wedi cymryd unrhyw aelod o staff yn rhan o'r rhaglen Hyfforddeiaeth, er bod oddeutu traean o'r cyflogwyr oedd heb gymryd Hyfforddai wedi mynegi diddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol (32%). Roedd y canfyddiadau hyn yn cyfateb â'r ffigurau drwy holl ranbarthau Cymru.

**Casgliadau**

- Roedd y canlyniadau yn Ne Ddwyrain Cymru'n gyson iawn â'r rheiny yn 2017, ac yn debyg yn aml iawn i'r darlun ledled Cymru, gyda rhai eithriadau nodedig. Roedd y gyfran o weithwyr oedd â bylchau sgiliau'n uwch yn Ne Ddwyrain Cymru nag ydoedd ar draws Cymru, tra bo gan gyfran lai o staff sgiliau a chymwysterau oedd yn cael eu tanddefnyddio. Ers 2017, roedd y gyfran o'r gweithlu oedd yn cael eu hyfforddi wedi cynyddu, o bosib mewn ymateb i'r bylchau sgiliau hyn. Er gwaethaf y ffaith fod y gyfran o staff gyda bylchau sgiliau'n uwch nag oedden nhw ledled Cymru, nid oedd cyflogwyr yn Ne Ddwyrain Cymru'n troi at brentisiaethau fwy nag oedd y cyflogwyr yng Nghymru'n gyffredinol, ac roedd y gyfran o'r gweithlu oedd yn gwneud prentisiaeth yn cyfateb â'r ffigurau cenedlaethol. Bydd hi'n bwysig tracio'r gyfran uwch hon o'r gweithlu sydd â bylchau sgiliau yn Ne Ddwyrain Cymru wrth symud ymlaen, ac edrych a yw'r cynnydd yn y gyfran o staff sy'n cael ei hyfforddi'n dod law yn llaw â gostyngiad yn amlygrwydd y bylchau sgiliau.

## Tabl 2 Y Prif Ganfyddiadau

| | De Ddwyrain Cymru | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | **2017** | **2019** | **2019** |
| **Swyddi gwag a swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau (SGPS)** | | | |
| % o sefydliadau gydag unrhyw swyddi gwag | 19 | 17 | 15 |
| % o sefydliadau gydag unrhyw swyddi gwag anodd eu llenwi | 8 | 8 | 7 |
| % o sefydliadau gyda swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau | 6 | 6 | 5 |
| % o’r holl swyddi gwag oedd yn swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau | 25 | 25 | 24 |
| Nifer y swyddi gwag | 16,900 | 20,000 | 40,800 |
| Nifer y swyddi gwag lle’r oedd prinder sgiliau | 4,200 | 4,900 | 9,800 |
| **Bylchau sgiliau** | | | |
| % o sefydliadau gydag unrhyw staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 14 | 14 | 13 |
| Nifer y staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 29,200 | 28,900 | 50,900 |
| % o’r staff nad oeddent yn gwbl hyfedr | 4.9 | 4.6 | 4.0 |
| **Hyfforddiant** | | | |
| % o sefydliadau a fu’n hyfforddi unrhyw staff dros y 12 mis blaenorol | 62 | 64 | 62 |
| % o sefydliadau’n hyfforddi tu allan i’r gwaith yn y 12 mis blaenorol | 46 | 45 | 45 |
| % o’r gweithlu a hyfforddwyd | 58 | 65 | 65 |
| Cyfanswm y diwrnodau hyfforddi | 1.8m | 1.9m | 4.2m |
| Diwrnodau hyfforddi fesul hyfforddai | 5.0 | 4.7 | 5.1 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 2.9 | 3.1 | 3.3 |
| **Prentisiaethau** | 2016 | 2019 | 2019 |
| Mae ganddynt brentisiaid ar y safle neu maent yn cynnig prentisiaethau | 16 | 17 | 16 |
| % o weithiwyr sy’n bwriadu cynnig prentisiaethau yn y dyfodol | 29 | 28 | 27 |
| Nifer y prentisiaid i bob 1,000 o weithwyr | 18 | 15 | 16 |
| Y % sy’n ymwybodol o’r rhaglen Hyfforddeiaethau yng Nghymru | Amh | 29 | 28 |